

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith berthynol ar gyfer 2017-2021?*
 - 1.1 Yr uchelgais a nodir yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, yw creu Cymru sy'n ymateb mewn ffordd gynlluniedig i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, a chynyddu nifer y bobl sy'n dysgu ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.
 - 1.2 Mae'r cynigion yn ceisio pennu cyfeiriad uchelgeisiol i pob maes sy'n dylanwadu ar yr iaith ac yn cydnabod bod angen creadigrwydd os ydym am gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr. Mae hefyd yn cydnabod bod angen i'r Llywodraeth arwain y sgwrs, ond hefyd weithio mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau eraill tuag at wneud y Gymraeg yn ganolog i fywyd cyhoeddus yng Nghymru.
 - 1.3 Mae i'r strategaeth dair thema:
 - Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; trosglwyddo'r iaith yn y teulu, y blynyddoedd cynnar, addysg statudol, addysg ôl-orfodol, y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau.
 - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; y gweithle, gwasanaethau, defnydd cymdeithasol o'r iaith.
 - Creu amgylchiadau ffafriol – seilwaith a chyd-destun; cymuned ac economi, diwylliant a'r cyfryngau, Cymru a'r byd ehangach, technoleg ddigidol, isadeiledd ieithyddol, cynllunio ieithyddol, gwerthuso ac ymchwil.
 - 1.4 Bydd nodau cyffredinol y ddeddfwriaeth hon yn helpu llywodraeth leol i gyflawni ei hymrwymyiadau at y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Dylai helpu'r prif gynghorau i wella'u capasiti a'u gallu eu helpu hefyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig yng ngoleuni pwysau ariannol a demograffig. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc, yn ogystal â'r seilwaith ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath i siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys opsiynau digidol arloesol. Bydd agweddau penodol ar y Bil fel y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn helpu'r prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys i fod yn fwy arloesol wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau o'r fath.
 - 1.5 Byddai'n ofynnol i'r prif gynghorau arddel set fwy cadarn o weithdrefnau llywodraethu corfforaethol a fyddai'n helpu i sicrhau bod eu hymrwymyiadau at y Gymraeg yn cael eu gwireddu, gan gynnwys nodi'r ffordd orau i gyngor fodloni ei rwymedigaethau ynglŷn â'r Gymraeg. Byddai angen i hyn gael ei ystyried fel rhan o'r broses hunanasesu a phroses y panel adolygu. Bydd Pwyllgorau

Llywodraethu a Chraffu y prif gynghorau hefyd yn cael rôl ehangach o wneud gwaith craffu a sicrwydd ar y materion hyn.

- 1.6 Mae darpariaethau'r Bil yn debygol hefyd o ategu safle'r Gymraeg mewn cymunedau: nid yn unig drwy wella gwasanaethau cyfrwng Gymraeg, ond drwy ei gynigion i sicrhau bod llywodraeth leol yn adlewyrchu'n well y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae llywodraeth leol sy'n nes at gymunedau – drwy aelodau etholedig mwy amrywiol a phrosesau mwy agored a thryloyw – yn debygol o gryfhau gallu siaradwyr a chymunedau Gymraeg i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
- 1.7 Yn dilyn ymgysylltu helaeth blaenorol ar y cynigion diwygio, cafodd rhai pryderon ynglŷn â pharhau i hyrwyddo'r Gymraeg eu codi. Gan hynny, sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor ar y Gymraeg a Llywodraeth Leol. Yn benodol, bu'r Gweithgor yn ystyried effaith bosibl uniadau ar ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith weinyddol fewnol mewn llywodraeth leol. Rhoddodd y Gweithgor ystyriaeth hefyd i rôl llywodraeth leol fel hwylusydd datblygu economaidd i gefnogi'r Gymraeg. Cyflwynodd y Gweithgor adroddiad yn haf 2016, ac ymatebodd Llywodraeth Cymru yn Hydref 2016. Mae rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad yn ymwneud â dyletswyddau Comisiynydd y Gymraeg a phartneriaid eraill ond mae eraill a gafodd eu derbyn wedi cael eu rhoi neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith drwy strategaeth Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a pholisïau allweddol eraill. Er bod cyd-destun y cynigion presennol yn wahanol i'r cynigion a ystyriwyd pan gyhoeddwyd yr adroddiad, mae'r egwyddorion yn dal i gael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru.
- 1.8 Yn unol ag egwyddor sybsidiaredd, mae effeithiau llawn y diwygiadau hyn yn debygol o gael eu gwireddu drwy benderfyniadau a wneir gan y prif gynghorau. Bydd effeithiau'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwerthuso ar lefel leol maes o law.
2. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg:**
 - 2.1 Gall y Gymraeg, cymunedau Gymraeg eu hiaith a siaradwyr Gymraeg mewn cymunedau lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith elwa o nodau cyffredinol y Bil. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn ceisio sicrhau bod y prif gynghorau'n gynaliadwy ac yn gallu adeiladu eu capasiti a'u gallu a'u bod yn fwy cynhwysol, yn fwy atebol, ac yn rhannu mwy o bŵer a chyfrifoldeb gyda'r cymunedau. Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'cymunedau' yw cymunedau buddiant yn ogystal â chymunedau lle, ac felly mae'n cynnwys siaradwyr Gymraeg ym mhob rhan o Gymru, nid dim ond y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Dylai hyn sicrhau y gall y prif gynghorau wasanaethu a chynrychioli'r rhai sy'n siarad Gymraeg yn well a darparu gwasanaethau, cyfleusterau, ac addysg well yn Gymraeg. Dylai'r cynigion hefyd helpu'r prif gynghorau i gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac i fodloni'r gofynion sydd arnynt o dan Safonau'r Gymraeg i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys yn y gweithle.
 - 2.2 Er hynny, mae rhai cynigion hefyd yn debygol o greu rhai effeithiau penodol ar siaradwyr Gymraeg a chymunedau Gymraeg eu hiaith. Crynhoir y rhain isod.

Etholiadau

- 2.3 Dim ond ar ddinasyddion a siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd y bydd y cynigion diwygio etholiadol yn effeithio (a phobl ifanc 14 a 15 oed o ran cofrestru etholiadol). Bydd y mwyafrif o'r cynigion yn weithredol ledled Cymru ac, felly, ni ddylai cymunedau Cymraeg eu hiaith weld effaith anghymesur ac fe ddylen nhw barhau i gael gwasanaethau etholiadol gan eu prif gyngor fel ar hyn o bryd. Mae'r prif gynghorau yn dod o dan safonau'r Gymraeg ac, felly, dylai'r staff a gyflogir gan y prif gyngor barhau i ddarparu gwasanaethau presennol neu wasanaethau newydd yn Gymraeg.
- 2.4 Corff arall sy'n dod o dan y safonau yw Comisiwn Etholiadol Cymru, a fyddai'n bartner allweddol o ran mynegi'r diwygiadau etholiadol arfaethedig yn y Bil. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi ymrwymo i weithredu'n ddwyieithog ac mae ganddo swyddog Cymraeg a Grŵp Cynghori Deddfwriaeth Gymraeg. Un o swyddogaethau allweddol y Comisiwn Etholiadol yw hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o etholiadau a fyddai'n ategu thema 2 a 3 o Strategaeth 2050 drwy hybu defnyddio'r gwasanaethau etholiadol yn Gymraeg a hybu etholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfryngau.
- 2.5 Byddai'r cynigion i foderneiddio etholiadau a'r modd y gall pobl bleidleisio yng Nghymru, yn arbennig y cynigion ar gyfer cynlluniau peilot etholiadol a chofrestr electronig gyfunol yn cyfrannu at faes technoleg ddigidol yn Thema 3 Strategaeth Cymraeg 2050 gan y bydd unrhyw adnoddau digidol a ddatblygir yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i holl bolisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru.
- 2.6 I helpu i ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 a 17 oed, câi ymgyrch addysgol ei datblygu i'w defnyddio mewn ysgolion. Câi'r adnoddau addysgol hyn eu cynhyrchu'n ddwyieithog, gan ganolbwyntio ar etholiadau yng Nghymru. Gallai ysgolion cyfrwng Cymraeg ddarparu'r ymgyrch addysg hon yn Gymraeg i'w disgyblion, gan gyfrannu at themâu 1 a 2 yn Strategaeth 2050 drwy ganiatáu i ddeunydd addysgol newydd gael ei ddarparu yn Gymraeg, a hefyd annog pobl ifanc i gyrchu gwasanaethau etholiadol drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl cyrraedd oedran pleidleisio.
- 2.7 Fe allai'r prif gynghorau weld costau uwch o ran cyfieithu pe bai nifer yr etholwyr a'r gyfran o'u plith sy'n defnyddio gwasanaethau etholiadol Cymraeg yn cynyddu. Ond, bernir bod y gost hon yn rhan o'u cydymffurfiaeth â safonau gwasanaeth Cymraeg.
- 2.8 I fwydo'r asesiad effaith hwn, cynhwyswyd cwestiynau ar effeithiau ar y Gymraeg mewn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio etholiadol mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn teimlo y ceid unrhyw effaith ar y Gymraeg yn sgil y cynigion hyn, neu y byddai'r effeithiau'n gadarnhaol ac y câi mwy o bobl eu hannog i ddefnyddio gwasanaethau etholiadol yn Gymraeg yn sgil rhoi'r cynigion hyn ar waith. Fel rhanddeiliaid allweddol, mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o blaid defnydd cyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg fel rhan o'r broses etholiadol. Eu cyngor oedd

y dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â grwpiau o randdeiliaid perthnasol eraill megis y Grŵp Cyngori ar Ddeddfwriaeth Cymru, Bwrdd Cydgysylltu Etholiadol Cymru a Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru, i roi arbenigedd ynglŷn â'r maes penodol hwn, ac mae Llywodraeth Cymru'n ceisio gwneud hynny yn gyson.

Perfformiad a Llywodraethu

- 2.9 Ceir nifer o fesurau i sicrhau bod llywodraethu corfforaethol pob prif gyngor yn gyson gadarn. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno dull newydd o reoli perfformiad, wedi'i seilio ar hunan-asesu ac adolygiadau gan gymheiriaid, ar draws ystod o feini prawf sy'n ymwneud â'r trefniadau sydd gan gyngor ar gyfer ei reolaeth a'i atebolrwydd. Byddai hyn yn cynnwys asesiad o ba mor dda mae'r cyngor yn ateb gofynion safonau'r Gymraeg. Byddai hyn yn annog y prif gynghorau i ymgorffori'r Gymraeg yn eu busnes bob dydd ac i weithredu eu strategaethau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith (yn unol â'r Safonau Hybu), ac fe allai fod yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith.
- 2.10 Os bydd Gweinidogion Cymru'n gorfod defnyddio'r pwerau a gynigir yn y Bil i wneud rheoliadau uno neu reoliadau ailstrwythuro i unrhyw ran o Gymru, bydd rhaid cael y gyfres o asesiadau effaith i gyd-fynd â'r rheoliadau hynny, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar y Gymraeg.

Gweithio Rhanbarthol

- 2.11 Mae'r Bil yn nodi un fframwaith cyson, uniongyrchol, wedi'i symleiddio a fydd yn galluogi prif gynghorau i weithio'n rhanbarthol a chydweithio mewn modd sy'n atebol yn ddemocrataidd. Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n eu galluogi i greu, trwy reoliadau, gyrff cydweithredu rhanbarthol – cydbwyllgorau corfforaethol – i ymgymryd â rhai o swyddogaethau penodol awdurdodau lleol. Bydd y Gweinidogion yn gallu creu cydbwyllgor corfforaethol mewn nifer cyfyngedig o feysydd swyddogaeth penodedig. Bydd Prif Gynghorau hefyd yn gallu gofyn i'r Gweinidogion greu cydbwyllgor corfforaethol ar gyfer unrhyw faes swyddogaeth.
- 2.12 Bydd y trefniadau gweithio rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd i brif gynghorau adeiladu gwasanaethau cynaliadwy. Fel rhan o hyn, bydd sgôp i rannu capasiti o ran y Gymraeg, a gallai pobl sy'n dymuno derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg elwa ar hynny. Byddai hyn yn cael ei alluogi drwy rannu staff a gweithwyr proffesiynol sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau, yn ogystal â thrwy rannu'r capasiti Cymraeg mewn gwasanaethau corfforaethol.
- 2.13 Bydd sefydlu cydbwyllgorau corfforaethol yn cynnig cyfle clir i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a'i systemateiddio yn yr ardaloedd dan sylw. Bydd yn hanfodol nad ydynt yn arwain at erydu'r arferion sy'n bodoli'n barod mewn awdurdodau lleol lle mae'r cyfan neu ran helaeth o'r gweinyddu mewnol yn digwydd yn Gymraeg, a bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio sicrhau bod arferion o'r fath yn cael eu cryfhau a'u datblygu. Ar y cyd â rheoliadau i sefydlu cydbwyllgor corfforaethol, bydd cyfres o asesiadau effaith yn cael eu paratoi, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Bod yn agored, ymgysylltu, a thryloywder

- 2.14 Mae'r diwygiadau'n ceisio sicrhau bod democratiaeth leol yn gryfach, yn fwy agored ac yn fwy cyfranogol. Mae hyn yn debygol o wella'r ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bodlonir eu hanghenion yn effeithiol.
- 2.15 Bydd y prif gynghorau'n dod o dan safonau'r Gymraeg o ran arfer y swyddogaeth hon. Gan hynny, byddai hyn yn rhoi gwell cyfle i siaradwyr Cymraeg gyflwyno sylwadau am benderfyniadau a allai effeithio ar y Gymraeg, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol. Yn ychwanegol, byddai gofyn i'r prif gynghorau ddarlledu cyfarfodydd cyngor, gan ganiatáu i gymunedau Cymraeg eu hiaith, mewn ardaloedd gwledig yn aml, ddeall sut mae'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw yn cael eu cymryd.

Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

- 2.16 Byddai pŵer cymhwysedd cyffredinol yn cael ei ymestyn i'r holl brif gynghorau ac i gynghorau cymuned cymwys.
- 2.17 O fewn cyfyngiadau penodol, mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn rhyddhau cynghorau o'r angen i ddod o hyd i bŵer penodol yn y ddeddfwriaeth i wneud pethau. Mae'n eu galluogi i wneud unrhyw beth yn gyffredinol y caiff unigolyn ei wneud. Gallai'r pŵer cyffredinol gael ei ddefnyddio gan gynghorau i gymryd camau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a hynny mewn ffyrdd nad oes ganddynt bŵer i'w defnyddio ar hyn o bryd o bosibl, ond mater i'r cynghorau unigol fydd penderfynu sut y dymunant arfer y pŵer. Yn achos cynghorau cymuned, cyfyngedig yw eu sail gyfreithiol nhw dros gymryd camau ar hyn o bryd. Byddai'r pŵer cyffredinol yn rhoi cryn ryddid i'r cynghorau cymuned hynny sy'n gymwys i ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol (gweler isod) i weithredu mewn ffyrdd newydd mewn ymateb i bryderon a gofalon eu cymunedau.
- 2.18 Lle defnyddir y pŵer cyffredinol i ddatblygu modelau cyflawni amgen ar ran prif gyngor, er enghraifft yn cynnwys mentrau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol neu bartneriaid eraill, mae'n werth nodi bod y swyddogaeth ddirprwyedig yn dal yn swyddogaeth i'r cyngor ac felly yn dod o dan Safonau'r Gymraeg. Er enghraifft, gyfrifoldeb y prif gyngor yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael gwasanaethau (y mae Safonau'r Gymraeg yn gymwys iddynt) yn y Gymraeg lle darperir y gwasanaeth gan gorff arall ar ran y prif gyngor.

Adolygiad ar ôl Gweithredu

- 2.19 Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i fonitro effeithiau'r diwygiadau arfaethedig yn fanwl wrth iddynt gael eu gweithredu, ac yn trafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg gyda'r rhanddeiliaid perthnasol yn barhaus.

2.20 Gallai'r gwaith i fonitro effeithiau'r darpariaethau hyn ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cymryd cyngor rhanddeiliaid perthnasol ac ailystyried y cyngor a ddarparwyd yn adroddiad y Gweithgor blaenorol ar y Gymraeg a Llywodraeth Leol lle bo'n berthnasol; a
- Monitro gwaith y prif gynghorau i roi Safonau'r Gymraeg ar waith, mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil.

2.21 Defnyddir canlyniadau'r gwaith monitro hwn gan Weinidogion Cymru, y prif gynghorau, a rhanddeiliaid eraill i lywio'u trafodaethau parhaus, ac i wella ansawdd gwasanaethau Cymraeg.

Medi 2019